

DWYLO HUD

Prosiect
100 Stori

WRTH IDDI GERDDED AR HYD Y FFORDD OCHR YN OCHR Â'R CORSYDD, SYLWODD AR Y TEIMLAD ANESMWYTH. TEIMLAD ROEDD HI WEDI'I GARIO GYDA HI ERS PETH AMSER BELLACH. ROEDD HI'N MEDDWL Y BYDDAI'N DIFLANNU YMHEN AMSER OND NI DDIGWYDDODD HYN. CEISIODD NODI BETH YDOEDD, ROEDD YN DEIMLAD CYFARWYDD OND ETO'N ANGHYFFORDDUS. ROEDD HI'N EI GARIO GYDA HI DRWY'R AMSER NAWR. ROEDD HI'N EI CHAEL HI'N ANODD YMLACIO HYD YN OED YN GWNEUD YR HYN YR OEDD HI'N EI FWYNHAU FWYAF - CERDDED YN AGOS AT FYD NATUR. ROEDD HI'N MEDDWL AM BETH ALLAI FOD WRTH IDDI WNEUD EI FFORDD DRWY'R DIRWEDD HARDD A DAETH YN ÔL IDDI.

ROEDD HI WEDI BYW GYDA'R TEIMLAD HWN AM Y RHAN FWYAF O'I PHLENTYNDOD.

COFIODD PAN DEIMLODD HI HYN AM Y TRO CYNTAF. ROEDD HI WEDI MYND GYDA'I MAM I'R YSBYTY Y TRO CYNTAF. ROEDD HI'N 7 OED BRYD HYNNY. MAE HI'N COFIO AROGL FFENOL YN YR YSBYTY A BWRLWM CORIDORAU'R YSBYTY. ARHOSODD Y TU ALLAN I'R ADRAN CLEIFION ALLANOL.

ROEDD HI WEDI GWELD EI MAM MEWN POEN AC YN GOBEITHIO Y BYDDAI MYNYCHU'R YSBYTY YN EI RHYDDHAU O HYN. GWELODD EI MAM YN HERCIAN YN GLOFF ALLAN O'R CLINIG A CHAFODD SIOC O SYLWEDDOLI NAD OEDD YR YSBYTY WEDI TRWSIO EI MAM. WRTH IDDI DYFU'N HŶN, SYLWEDDOLODD FOD EI MAM WEDI CAEL DIAGNOSIS O GYFLWR AWTOIMIWN A EFFEITHIODD AR BOB CYMAL YN EI CHORFF GAN ARWAIN AT BOEN ERCHYLL. MAE HI'N COFIO CLYWED CRIO MUD EI MAM YN Y NOS PAN NAD OEDD Y FEDDYGINIAETH YN HELPU. DROS AMSER SYLWEDDOLODD EI BOD HI'N CARIO TEIMLAD GYDA HI DRWY'R AMSER, DIYMADFERTHEDD OEDD Y TEIMLAD HWNNW. ROEDD HI WEDI GOBEITHIO Y GALLAI GYMRYD POEN EI MAM I FFWRDD A'I GWNEUD HI'N WELL ETO. OND NI ALLAI WNEUD HYNNY.

ROEDD YN ÔL, Y TEIMLAD HWNNW O DDIYMADFERTHEDD. ROEDD HI'N GWYBOD SUT BETH FYDDAI PAN DDAETH I MEWN I OFAL IECHYD. ROEDD HI'N GWYBOD NA ALLAI CHWIFIO FFON HUD A GWNEUD POPETH YN WELL. SYLWEDDOLI'R REALITI HWN OEDD YR HYN A'I HELPODD HI I BARHAU Â'I GWAITH AM FLYNYDDOEDD LAWER. OND YN DDIWEDDAR, NI ALLAI HELPU OND TEIMLO'R UN TEIMLAD OFNADWY A WNAETH FLYNYDDOEDD LAWER YN ÔL - DIYMADFERTHEDD.

PAM EI FOD WEDI DYCHWELYD? PAM NAWR?

A ALLAI FOD OHERWYDD Y FAM RWYSTREDIG A DDAETH GYDA'I MAB AG AWTISTIAETH YN GOFYN AM HELP YR OEDD HI'N GWYBOD NA ALLI EI ROI? NEU OHERWYDD Y DYN NAD OEDD YN GWYBOD SUT I YMDOPI Â'I SYMPTOMAU ADHD? A ALLAI FOD WEDI BOD YR UNIGOLYN 18 OED A OEDD YN TEIMLO EI FOD YN LLAI NA PHAWB ARALL OHERWYDD EI FOD YN AWTISTIG? Y FAM ANNIFYR NAD OEDD YN GWYBOD BETH I'W DDISGWYL GAN WASANAETHAU OEDOLION AC NAD OEDD GANDDI UNRHYW SYNIAD BETH OEDD DIAGNOSIS AWTISTIAETH AC ADHD EI MAB YN EI OLYGU? NEU DDISGWYLIAD GOBEITHIOL GOFALWYR YN CYNYDDU DROS FLYNYDDOEDD O AROS A'R SIOM SY'N DOD GYDA REALITI.

ROEDD HI'N MEDDWL WRTHI EI HUN BETH OEDD WEDI ARWAIN AT Y TEIMLAD HWN. ROEDD HI WEDI TEIMLO'N DDIYMADFERTH YN YSTOD Y RHAN FWYAF O'R YMGYNGHORIADAU AC YN AML YN YMDDIHEURO AM Y DIFFYG GWASANAETHAU A OEDD AR GAEL: ROEDD HI WEDI ADNABOD YR OLWG DDIYMADFERTH YN EU LLYGAID OHERWYDD EI BOD HI EI HUN WEDI'I DEIMLO O'R BLAEN. NID OEDD Y BOEN YN WELADWY OND ROEDD YN REAL. BETH ALLAI HI EI WNEUD AMDANO, A OES ATEB? ROEDD Y GOFYNIAD YN UCHEL AC ADNODDAU YN GYFYNGEDIG. ROEDD HI'N DYMUNO AM Y FFON HUD HONNO ETO. I ALLU GWNEUD Y CYFAN YN WELL I BAWB. OND ETO, NID OEDD UN.



MAE ADRODDIAD ADOLYGIAD GWASANAETHAU NIWRODDATBLYGIADOL A GYHOEDDWYD GAN LYWODRAETH CYMRU YN NODI "Y BRIF BROBLEM SY'N SAIL I'R BWLCH GALW-CAPASITI AR GYFER ASESU DIAGNOSTIG YW MAINT BACH Y GWASANAETHAU O'U CYMHARU Â'R GALW, YN HYTRACH NA PHROBLEMAU GYDA DYLUNIAD GWASANAETHAU. MAE'R ADRODDIAD HEFYD YN TRAFOD YR ANGEN HEB EI DDIWALLU AM GYMORTH CYN-DDIAGNOSTIG AC ÔL-DDIAGNOSTIG, AC MAE'N NODI GRWPIAU SY'N WYNEBU ANAWSTERAU PENODOL WRTH GAEL MYNEDIAD AT ASESIAD DIAGNOSTIG A CHYMORTH."

YNG NGOLEUNI TYSTIOLAETH DDOGFENNOL A THYSTIOLAETH GLINIGOL, MAE WEDI DOD YN DRAFODAETH O'R FLAENORIAETH BENNAF BOD ANGEN I WASANAETHAU EHANGU A BOD ANGEN I'N HYMARFER NEWID. MAE ANGEN I WASANAETHAU AGOR SIANEL GYFATHREBU I WEITHIO GYDA'I GILYDD A GWNEUD NEWIDIADAU. MAE ANGEN GWELLA CYFATHREBU Â GOFALWYR A DEFNYDDWYR GWASANAETH I GODI YMWYBYDDIAETH, LLEIHAU PRYDER A SICRHAU DISGWYLIADAU REALISTIG.

NID OES FFON HUD OND GALL RHOI EIN DWYLO AT EI GILYDD GREU HUD I WNEUD NEWIDIADAU ER GWELL.